MUSIC.
THEATRE.
WALES.

# CYNHYRCHYDD CYMUNEDOL – PECYN SWYDD

## GWYBODAETH ALLWEDDOL

**Swydd:** Cynhyrchydd Cymunedol (gyda ffocws ar Butetown a Grangetown)
**Cyflog:** £26,100 cyfanswm ffi'r contract (sy'n cyfateb i £210 y dydd)
**Oriau:** Tua 11 awr neu 1.5 diwrnod yr wythnos (i'w weithio'n hyblyg)
**Lleoliad:** Hyblyg ac hybrid
Yn debygol o fod wedi'i leoli ym Mhafiliwn Grangetown a Chanolfan Diwylliant a'r Cyfryngau Loudoun (CMC), gydag ambell waith yn swyddfeydd MTW yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd, ac o gartref y deiliad.
**Contract:** 21 mis – Awst 2025 tan Ebrill 2027
**Dyddiad Cau:** 5pm, Dydd Mercher 4 Mehefin 2025

## Contents


GWYBODAETH ALLWEDDOL ..... 1
MYNEDIAD ..... 1
PWY YDYM NI ..... 2
PWY WYT TI ..... 2
YNGLŶN Â'R RÔL ..... 2
CYFFREDINOL ..... 5
BETH RYDYM YN CHWILIO AMDANO ..... 5
CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A MYNEDIAD ..... 6
SUT I WNEUD CAIS ..... 6
DIOGELU DATA ..... 6


## MYNEDIAD

Mae'r ddogfen hon yn 8 tudalen a bydd yn cymryd 12 – 18 munud I'w ddarllen. Gallwch chi hefyd ddod o hyd i:

Fersiwn Sain

Fersiwn Hawdd i'w ddarllen

MUSIC.
THEATRE.
WALES.

## PWY YDYM NI

Mae MTW wedi bod yn rym dros newid a datblygiad ym maes opera yn y DU, gan greu cyfleoedd trawsnewidiol i artistiaid a chynulleidfaoedd greu a chael mynediad at opera gyfoes, yn aml am y tro cyntaf. Yn 2021, aethom ar daith newydd gan ofyn: **Beth sydd angen i opera ei wneud NAWR i chwarae rôl hanfodol ym mywyd cyfoes?**

Gyda hanes o greu gwaith arloesol, rydym wedi troi'r cwestiynau hyn at ein hunain: **pa werth allwn ni ei ychwanegu fel crewyr opera newydd?** Ein hateb yw ailddychmygu opera a chreu gwaith sy'n wir adlewyrchiad o Gymru a'r DU heddiw.

**Mae Music Theatre Wales yn ail-ddychmygu opera.**

Rydym yn gofyn: **Beth yw Opera? Pwy sy'n ei greu? A phwy yw'r gynulleidfa?**

Fel cwmni a chyflogwr, ein gwerthoedd canllaw yw:

- **Ymrwymiad** – datblygu opera fel ffurf gelfyddyd gynrychiadol ac hygyrch.
- **Dysgu** – cael ein harwain gan greadigrwydd y bobl rydym yn gweithio gyda nhw.
- **Parch** – meithrin potensial pawb a chefnogi datblygiad parhaus.
- **Celf mewn cymdeithas** – credu mewn rôl hanfodol y celfyddydau mewn cymdeithas.
- **Ein Hunaniaeth Gymreig** – cefnogi ac arddangos talent Cymru.

Edrychwch ar ein gwaith byw, digidol a chyfranogol yma: Our Work | Music Theatre Wales

## PWY WYT TI

I gefnogi ein rhaglenni creadigol ym Mhutetown a Grangetown, rydym yn chwilio am rywun sy'n angerddol dros ddod â chymunedau at ei gilydd ac yn meithrin eu potensial.Nid faint o brofiad sydd gennych sydd bwysicaf — ond eich brwdfrydedd, eich ymrwymiad a'ch cysylltiad â'r gymuned. Os oes gennych rywbeth i'w gynnig, rydym am glywed gennych.

Gallwch fod yn hwylusydd profiadol, yn drefnydd cymunedol, neu'n rhywun sydd wedi trefnu digwyddiadau a chysylltu pobl. Rydym yn chwilio am rywun sy'n gyffrous am y syniad o symbylu creadigrwydd, ysgwyd y sector celfyddydol, ac ailgysylltu opera â mwy o bobl.

## YNGLŶN Â'R RÔL

Mae MTW yn cynllunio rhaglen o brosiectau creadigol yn ardaloedd Butetown a Grangetown dros gyfnod y contract hwn, gan weithio mewn partneriaeth â Grange Pavilion, Canolfan Diwylliant a'r Cyfryngau Loudoun (CMC), Arts Active, Fio a Hijinx. Bydd y rhaglen yn cynnwys:

- **Perfformiad/cyflwyniad o "The Jollof House Party Opera"** (ein opera hip-hop 15 munud a grëwyd a pherfformiwyd gan Tumi Williams) ym mis Hydref 2025.
- **Creu opera gymunedol newydd** ochr yn ochr â Fio, gan ddechrau ym mis Medi 2025. Bydd hyn yn cynnwys sesiynau ymgysylltu cymunedol, gweithdai creadigol rheolaidd gyda chyfranogwyr cymunedol, gan arwain at gyfnod ymarfer dwys a pherfformiad terfynol tua Gwanwyn/Haf 2026.
- **Cyfeiriadau'r Dyfodol 4** – cyflwyno ein pedwerydd prosiect Cyfeiriadau'r Dyfodol mewn partneriaeth â Hijinx, yn dwyn ynghyd pobl niwronodweddiadol, niwroamrywiol, pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth, rhwng 16 a 25 oed, i greu opera ddigidol sy'n rhoi llais iddynt fynegi pwy ydyn nhw. Bydd gweithdai recriwtio o fis Medi 2026, gyda phreswylfeydd creadigol yn ystod Gwanwyn 2027.

Mae hon yn rôl newydd a fydd yn cael ei chyflogi a'i thalu gan MTW, gyda chefnogaeth Grange Pavilion a CMC.

Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith yn rhannu'n dri phrif faes:

- Ymgysylltu Cymunedol
- Datblygu Rhaglenni a Phartneriaethau
- Rheoli Prosiectau

Mae'r manylion isod yn cynnig braslun, ond bydd y rôl yn hyblyg i wneud y mwyaf o'ch cryfderau unigol. Os nad oes gennych lawer o brofiad mewn un maes, peidiwch â phoeni – gallwn gynnig cefnogaeth, hyfforddiant a chyngor.

Mae'r contract llawrydd hwn wedi'i gyfrifo ar sail tua 11 awr yr wythnos. Bydd modd trefnu eich amserlen yn hyblyg i weddu i ofynion y rôl – naill ai mewn bloc cryno o 1.5 diwrnod neu'n wasgarog dros yr wythnos. Bydd cyfnodau dwys (yn debygol tua diwedd pob prosiect) lle gallai fod angen gweithio oriau ychwanegol, ond bydd modd adfer yr oriau hynny yn ystod cyfnodau tawelach. Bydd rhywfaint o waith gyda'r nos neu ar benwythnosau hefyd.

Contract 21 mis: 1 Awst 2025 – 30 Ebrill 2027, gan adrodd i Reolwr Cyffredinol MTW. Bydd cyfnod prawf o 3 mis ar ddechrau'r contract. Rydym hefyd yn disgwyl i chi gymryd 4 wythnos o wyliau heb dâl, sydd eisoes wedi cael ei ystyried yn y ffi contract.

Mae hon yn rôl hybrid – bydd angen treulio cyfnodau ym Mhafiliwn Grangetown a Chanolfan Diwylliant a'r Cyfryngau Loudoun (CMC), yn ogystal â mynychu cyfarfodydd yn swyddfeydd MTW yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter, Caerdydd. Gallwch hefyd weithio o gartref neu o swyddfa MTW, fel sy'n gweddu orau i'ch dull gweithio a gofynion y rôl.

**Buddion yn cynnwys:** mynediad i Raglen Cymorth Gweithwyr MTW (Health Assured) sy'n cynnig cefnogaeth iechyd a llesiant i bawb sy'n gweithio i MTW ar sail barhaol, llawrydd neu

wirfoddol. Mae MTW yn ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd hyfforddiant diogelu cydnabyddedig yn cael ei ddarparu a'i dalu fel rhan o'r rôl.

## CYFRIFOLDEBAU

Dyma fraslun cyffredinol o'r hyn rydym yn rhagweld y bydd y rôl yn ei gynnwys yn ystod y 12 mis cyntaf. Byddwch yn gyfrifol am (gyda chefnogaeth gan dîm MTW a Grange Pavilion):

### Ymgysylltu Cymunedol

- Datblygu a gweithredu strategaeth recriwtio gan arwain gydag ymgysylltu cymunedol, wedi'i halinio â nodau'r prosiect, y gynulleidfa a'r targedau recriwtio.
- Sefydlu a chynnal perthnasau â rhanddeiliaid cymunedol allweddol, gan gynnwys unigolion, grwpiau a sefydliadau.
- Creu a dosbarthu gwybodaeth a chynnwys sy'n hyrwyddo prosiectau MTW ac yn tynnu sylw at fanteision cyfranogi.
- Datblygu a rheoli sianeli cyfathrebu i gyrraedd a chynnwys y gymuned yn effeithiol.
- Hwyluso trafodaethau a rhyngweithiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb o fewn y gymuned.
- Chwilio am gyfleoedd i siarad mewn digwyddiadau ledled y ddinas.

### Datblygu Rhaglenni a Phartneriaethau

- Cynllunio a chyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol (gan gynnwys sesiynau recriwtio, gweithdai creadigol, gwyliau, a ymgyrchoedd ar-lein).
- Cydlynu rhwng artistiaid, cyfranogwyr a phartneriaid, gan gydweithio i wella rhaglenni ac ehangu ymgysylltiad cymunedol.
- Nodi a datblygu partneriaethau strategol gyda sefydliadau eraill sydd â nodau tebyg.
- Sicrhau bod rhaglenni'n gynhwysol, hygyrch, yn ddiogel ac yn berthnasol i aelodau amrywiol o'r gymuned.
- Paratoi dogfennau gwybodaeth hygyrch ar gyfer cynulleidfa eang a sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael ymlaen llaw ar gyfer pob cam o'r prosiect.

### Rheoli Prosiectau

- Rheoli pob agwedd ar gyflwyno prosiectau gan gynnwys:
    - Cynllunio ac amserlennu – creu amserlenni manwl mewn cydweithrediad â'r hwyluswyr a'r crewyr, a diweddaru'n rheolaidd.
    - Logisteg – sicrhau bod pob rhan o'r prosiect wedi'i threfnu'n effeithlon (lleoliadau, offer, personél).
    - Cyllidebu – cydweithio gyda Rheolwr Cyffredinol MTW i reoli a monitro cyllidebau'n effeithiol.

- Rheoli risg – paratoi asesiadau risg ar gyfer digwyddiadau, rhannu gwybodaeth allweddol a gweithio o fewn polisïau diogelu MTW.
- Gwerthuso – casglu a dadansoddi data i werthuso effeithiolrwydd y prosiectau a pharatoi adroddiadau i lywio gwaith yn y dyfodol.

## CYFFREDINOL

- Cadw cofnod o oriau trwy ddefnyddio taflen amser.
- Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd prosiect rheolaidd.
- Cymryd rhan mewn gwerthuso ac adolygiadau prosiectau.
- Cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol ar-lein, a hyfforddiant arall fel bo angen.
- Cwblhau gwiriad DBS (a ddarperir ac a delir gan MTW).
- Cydymffurfio â pholisïau a gwerthoedd perthnasol (MTW, Grange Pavilion a CMC) gan gynnwys Iechyd a Diogelwch, Diogelu, Iaith Gymraeg, Amgylcheddol, ac EDI.

## BETH RYDYM YN CHWILIO AMDANO

Rydym yn agored i bobl â sgiliau perthnasol hyd yn oed os nad oes ganddynt brofiad uniongyrchol. Dyma rai meysydd rydym yn chwilio amdanynt:

**Sgiliau a rhinweddau allweddol:**

- Gallu cynnal gofodau cynhwysol.
- Cynhesrwydd, agosatrwydd a gonestrwydd.
- Sgiliau adeiladu cysylltiadau a chynulleidfaoedd newydd.
- Diddordeb profedig yn y celfyddydau neu allu i ddefnyddio creadigrwydd.
- Gallu cyflwyno prosiect ystyrlon wedi'i yrru gan genhadaeth.
- Ysgogiad gan gyfiawnder cymdeithasol a newid.
- Gwybodaeth am gymunedau Grangetown a Butetown.
- Agwedd gydweithredol at waith tîm a gallu cyfathrebu'n effeithiol.

**Byddai'n fanteisiol:**

- Profiad yn y celfyddydau fel artist, cynhyrchydd neu debyg.
- Profiad o reoli prosiectau ac ymgysylltu cymunedol.
- Profiad o weithredu cymdeithasol neu drefnu cymunedol.
- Profiad byw sy'n adlewyrchu Grangetown a Butetown.
- Dealltwriaeth o'r sector diwylliannol ehangach (Caerdydd, Cymru a thu hwnt).

- Sgiliau iaith Gymraeg neu ieithoedd cymunedol eraill.
- Profiad o weithio gyda phobl sydd wedi wynebu rhwystrau i'r celfyddydau.

## CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A MYNEDIAD

Mae MTW wedi ymrwymo i sicrhau mwy o gydraddoldeb fel sefydliad ac fel cyflogwr.
Rydym yn cynnig cynllun cyfweliad gwarantedig i ymgeiswyr anabl, niwroamrywiol, neu bobl o'r mwyafrif byd-eang sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol.

Gallwch ddarllen ein Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yma.

## SUT I WNEUD CAIS

Gallwch wneud cais trwy:

- Gwblhau'r ffurflen gais Google neu lawrlwytho a llenwi copi.
- Cofnodi fideo neu glip sain hyd at 10 munud o hyd yn ateb y cwestiynau.

Cwblhewch hefyd y Ffurflen Fonitro Cyfleoedd Cyfartal a nodwch eich bod wedi'i chwblhau yn eich e-bost.

Anfonwch eich cais i: **kathryn@musictheatre.wales** (fideos neu glipiau sain trwy WeTransfer).

**Dyddiad Cau:** 5pm, Dydd Mercher 4 Mehefin 2025
**Cyfweliadau:** Dydd Llun 16 a Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025
**Dyddiad Cychwyn:** Dydd Llun 4 Awst 2025

## DIOGELU DATA

Bydd Music Theatre Wales yn casglu ac yn prosesu data personol i reoli'r broses recriwtio. Cedwir data'n ddiogel ac yn breifat, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n gweinyddu'r broses. Cedwir data am chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio.